PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 3 TACHWEDD 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Stubbs(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Humphreys, Ahmed, Hunt, Jones, Joyce, Naughton, Reid-Jones, Robson, Sattar a/ac Wong |

47 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

48 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â’r Cod Ymarfer Aelodau.

| CYNGHORYDD | EITEM | NATUR Y BUDDIANT |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Naughton | Eitem 6 | Personol a Rhagfarnus – wedi mynegi barn yn flaenorol mewn perthynas â cheisiadau yn ymwneud ag Ysbyty'r Eglwys Newydd |
| Y Cynghorydd Humphries | Eitem 6 | Buddiant Rhagfarnus – mae ar Gyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a’r Fro sydd wedi cefnogi'r ceisiadau yn ymwneud ar Ysbyty’r Eglwys Newydd |

49 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2022 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

50 : DEISEBAU

Sylwer bod deisebau mewn perthynas â'r ceisiadau canlynol:

Rhif cais, 22/01411/DCH, 43 Pentwyn, Radur

Cais rhif 22/01707/MNR, 88 Heol y Sblot

Mewn perthynas â’r uchod, siaradodd y deisebwr ac ymatebodd yr asiant.

51 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Y dylai’r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhelliad a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y

penderfyniadau’n unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

## CEISIADAU A GYMERADWYWYD

22/01411/DCH – RADUR

43 PENTWYN
Estyniad llawr gwaelod a llawr cyntaf gyda chroesfan cerbydau a phorth ceir newydd.

22/01719/MJR – Y TYLLGOED

YSGOL UWCHRADD CANTONIAN, HEOL Y TYLLGOED
Codi Adeiladau Ysgol Newydd Dros Dro (Rhwng Un A Thri Llawr O Uchder), Gan Gynnwys Ystafell Weinyddu, Cegin / Ffreutur Ac Adeiladau Neuadd Ysgol; Maes Parcio Ysgol Dros Dro a Llwybr Troed a Heol Y Tyllgoed i Rhodfa Doyle (Gwaith Dros Dro) Ynghyd â Gwaith Galluogi Parhaol i Hwyluso Ailddatblygu Ysgol Uwchradd Cantonian Sy'n Cynnwys: Ffens ffiniol, Eisteddle i Wylwyr, Gosod Caeau Chwaraeon, Ardaloedd Chwarae Amlddefnydd a Goleuadau a Ffensys perthnasol, Tirlunio Perthnasol, gwaith Draenio a Pheirianneg Perthnasol.

## CEISIADAU WEDI’U GOHIRIO

20/01882/MJR – LLANDAF

WINDRUSH, 58 HEOL PWLL MELYN
Dymchwel y tŷ annedd presennol a'i ddisodli â 23 o fflatiau preswyl hunangynhwysol, wedi'u cynnwys mewn pedwar bloc ar wahân gyda thirlunio, mynediad, parcio a seilwaith cyswllt.

22/01707/MNR – Y SBLOT

88 HEOL Y SBLOT, Y SBLOT
Estyniad ar y llawr gwaelod yng nghefn yr eiddo, trosi llofft dormer, addasiadau a newid defnydd i dŷ amlfeddiannaeth SUI Generis mawr.

52 : ADRAN 257 DARGYFEIRIO LLWYBRAU TROED YR EGLWYS NEWYDD, 106, 107 A 108

*Datganodd y Cynghorwyr Irene Humphries a Dan Naughton fuddiant rhagfarnus a gadawon nhw’r cyfarfod wrth drafod yr eitem hon.*

Roedd datblygu Ysbyty newydd Felindre yn yr Eglwys Newydd wedi cael caniatâd cynllunio amlinellol (Cyfeirnod Cais 17/01735/MJR) ar 27 Mawrth 2018. Roedd tri llwybr troed hanesyddol yn croesi'r safle a gofnodwyd yn ddiweddar ar y Map Diffiniol a fydd yn cael ei adeiladu arno ac sydd bellach angen dargyfeirio llwybrau. Roedd yr ymgeisydd wedi gwneud cais dan Adran 257 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref er mwyn dargyfeirio'r llwybrau o fewn perimedr y safle yn barhaol fel llwybrau hamdden mewn ardaloedd gwyrdd.

Mae'r cais yn gofyn am gymeradwyaeth Cynllunio i fynd ymlaen i'r Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud y Gorchymyn Cyfreithiol.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor i gymeradwyo'r cais i gyfarwyddo Gwasanaethau Cyfreithiol i Wneud y Gorchymyn**.**

53 : CEISIADAU WEDI EU PENDERFYNU GAN BWERAU DIRPRWYEDIG – MEDI 2022

Cafodd y ceisiadau a benderfynwyd gan bwerau dirprwyedig eu gohirio a byddant yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Rhagfyr 2022.

54 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion brys i’w trafod.

55 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 8 RHAGFYR 2022

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 pm